CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 615 (Cy.68)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2006

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Rhan I o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill i gynnal adolygiadau gwerth gorau o'u swyddogaethau ac i lunio cynllun perfformiad gwerth gorau (a elwir "cynllun gwella" yn y Gorchymyn hwn) ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i gynllun gwella awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol gael ei gyhoeddi a'r dyddiad erbyn pryd y mae copïau o adroddiad archwilydd ynglŷn â'r cynllun i'w hanfon i'r awdurdod, at Archwilydd Cyffredinol Cymru ac, os bydd angen, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) 2002 ac nid yw'n gwneud unrhyw ddarpariaeth yn ei le ynghylch y cyfnod y dylai awdurdod gwerth gorau adolygu pob un o'i swyddogaethau ynddo.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 615 (W.68)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Government (Improvement Plans) (Wales) Order 2006

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Part I of the Local Government Act 1999 imposes duties on local and other authorities to conduct best value reviews of their functions and to prepare a best value performance plan (in this Order called an "improvement plan") for each financial year.

This Order specifies the date by which an authority's improvement plan for a financial year must be published and the date by which copies of an auditor's report relating to the plan are to be sent to the authority, the Auditor General for Wales and, if required, the National Assembly for Wales.

This Order revokes the Local Government (Whole Authority Analyses and Improvement Plans) (Wales) Order 2002 and does not make any replacement provision concerning the period within which a best value authority should review all its functions.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 615 (Cy.68)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *7 Mawrth 2006* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 5(2), 6(3), 7(6) a 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 1 Ebrill 2006.

(2) Yn y Gorchymyn hwn-

ystyr "cynllun gwella" ("*improvement plan*") yw cynllun perfformiad gwerth gorau o fewn ystyr "best value performance plan" yn adran 6(1) o'r Ddeddf; ac

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1999.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i awdurdodau gwerth gorau yng Nghymru ac eithrio'r rhai a bennir yn adran 1(1)(d) ac (e) o'r Ddeddf.

**Y dyddiad ar gyfer cyhoeddi cynlluniau gwella**

**2**. Rhaid i awdurdodau gwerth gorau gyhoeddi eu cynllun gwella am flwyddyn ariannol erbyn 31 Hydref o'r flwyddyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddi.

(**1**) 1999 p.27.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 615 (W.68)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Government (Improvement Plans) (Wales) Order 2006

| | |
|---|---|
| *Made* | *7 March 2006* |
| *Coming into force* | *1 April 2006* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 5(2), 6(3), 7(6) and 29(1) of the Local Government Act 1999(**1**), hereby makes the following Order:

**Title, commencement, interpretation and application**

**1**.-(1) The title of this Order is the Local Government (Improvement Plans) (Wales) Order 2006 and it comes into force on 1 April 2006.

(2) In this Order-

"improvement plan" ("*cynllun gwella*") means a best value performance plan within the meaning of section 6(1) of the Act; and

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Local Government Act 1999.

(3) This Order applies to best value authorities in Wales with the exception of those specified in section 1(1)(d) and (e) of the Act.

**Date for publication of improvement plans**

**2**. Best value authorities must publish their improvement plan for a financial year by 31 October of the year to which the plan relates.

(**1**) 1999 c27.

**Y dyddiad ar gyfer anfon copïau o adroddiadau archwilwyr**

**3**. Rhaid i gopïau o adroddiad archwilydd ynghylch cynllun gwella gael ei anfon yn unol ag adran 7(5) o'r Ddeddf erbyn 30 Tachwedd o'r flwyddyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddi.

**Dirymu**

**4**. Dirymir y gorchmynion canlynol-

(a) Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) 2002(**1**); a

(b) Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) (Diwygio) 2004(**2**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

7 Mawrth 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

**Date for sending copies of auditors' reports**

**3**. Copies of an auditor's report relating to an improvement plan must be sent in accordance with section 7(5) of the Act by 30 November of the year to which the plan relates.

**Revocation**

**4**. The following orders are revoked-

(a) the Local Government (Whole Authority Analyses and Improvement Plans) (Wales) Order 2002 (**1**); and

(b) the Local Government (Whole Authority Analyses and Improvement Plans) (Wales) (Amendment) Order 2004(**2**).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**3**).

7 March 2006

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) O.S. 2002/886 (Cy. 101).
(**2**) O.S. 2004/1575 (Cy. 161).
(**3**) 1998 p.38.

(**1**) S.I. 2002/886 (W. 101).
(**2**) S.I. 2004/1575 (W. 161).
(**3**) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 Rhif 615 (Cy.68)

# 2006 No. 615 (W.68)

## LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## LOCAL GOVERNMENT, WALES

Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2006

The Local Government (Improvement Plans) (Wales) Order 2006

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W265/03/06 ON